

CLUB LIFE

Empower, Engage, Sustain

Gwirfoddolwyr yn Gwneud i Hoci Ddigwydd

Yn syml iawn, oni bai am yr holl wirfoddolwyr sy'n cyfrannu eu hamser a'u harbenigedd, byddai chwaraeon yng Nghymru'n dod i stop. Gwirfoddolwyr yw asgwrn cefn y clybiau a bydd yr adnodd hwn yn helpu eich Clwb Hoci i wneud y canlynol:

- Datblygu syniadau ar gyfer **RECRIWTIO** Gwirfoddolwyr newydd
- Mynd ati'n effeithiol i **YMGYSYLLTU Â** gwirfoddolwyr
- Sut mae **DATBLYGU** gwirfoddolwyr
- Eich helpu i **GADW** gwirfoddolwyr

Pam rydych chi eisiau **RECRIWTIO** gwirfoddolwyr newydd?

- Os ydych chi'n bwriadu cynyddu eich aelodaeth, meddyliwch am y gwirfoddolwyr newydd y bydd arnoch eu hangen i helpu.
- Bydd gwirfoddolwyr newydd yn helpu i ysgafnu baich y gwirfoddolwyr presennol.
- Efallai y bydd arnoch angen gwirfoddolwyr newydd i gymryd lle'r rhai sy'n gadael y clwb neu'n rhoi'r gorau i wirfoddoli.

Efallai bod swyddogaethau newydd yn eich clwb nad ydynt yn addas i sgiliau eich tîm presennol o wirfoddolwyr.



For more information, visit:

www.hockeywales.org.uk/play/club-life

HOCKEY WALES
HOCI CYMRU

Recriwtio Gwirfoddolwyr

Beth am fynd ati i dargedu rhai o'r grwpiau isod i ddod o hyd i wirfoddolwyr newydd?

Rhieni, Teidiau a Neiniau a Phobl sydd Newydd Ymddeol

Mae rhieni'n fan cychwyn da ond mae hyn yn draddodiadol iawn ac yn yr hinsawdd bresennol, a thros y blynyddoedd, mae gan rieni lai a llai o amser yn rhydd. Fel rheol, mae rhieni'n gwirfoddoli am fod eu plant yn cymryd rhan. Mae hyn weithiau'n ychwanegu pwysau ac weithiau'n cyfyngu ar eu cyfnod gwirfoddoli. Yn aml iawn, pan mae eu plant yn gorffen chwarae neu'n dewis camp wahanol, bydd y rhieni'n diflannu gyda nhw!

Mae teidiau a neiniau'n giwed newydd o wirfoddolwyr. Mewn nifer o achosion, mae teidiau a neiniau'n gofalu llawer am blant, gan gynnwys eu danfon i'r ysgol a'u nôl adref, a'u danfon i glybiau chwaraeon. Beth am ofyn iddyn nhw gymryd rhan? Hefyd mae teidiau a neiniau'n tueddu i fod â mwy o amser o gymharu â rhieni modern sy'n gweithio. Mae'n bosib bod teidiau a neiniau'n farchnad nad oes neb wedi sylwi'n iawn arni.

Bydd gan bobl sydd wedi ymddeol yn ddiweddar lawer i'w gynnig i chwaraeon ac os oes ganddyn nhw ddi-ddordeb mewn Hoci, gwell fyth! Ydych chi'n adnabod aelodau eich clwb yn ddigon da i wybod pwy sydd ar fin ymddeol?

Y Pwyllgor

Er bod aelodau'r pwyllgor yn chwarae rhan fawr eisoes mewn rhedeg y clwb, fel rheol maent yn ddibynadwy ac mae ganddynt ddi-ddordeb arbennig yn y clwb. Beth am newid y rôl maent yn ei gwneud neu ofyn iddynt a fyddent yn gallu gwneud rôl ychwanegol?! Rydych chi'n gwybod beth maen nhw'n ei ddweud, ... 'rhoi gwaith i berson prysur'!

Aelodau Clybiau Iau a Llysgenhadon Ifanc

Ydych chi wedi gofyn i aelodau hŷn y clwb ydyn nhw eisiau helpu yn y clwb? Mae tuedd gynyddol ledled Cymru mewn nifer o chwaraeon i ddefnyddio sgiliau pobl ifanc. Mae plant hŷn yn fodolau rôl gwych i aelodau iau ac yn aml mae ganddynt amrywiaeth o sgiliau y gallwch eu defnyddio. Meddyliwch yn ehangach na dim ond hyfforddi. Efallai y gallant helpu gyda hysbysebu, rheoli'r wefan neu gyfryngau cymdeithasol? Gwerth gofyn bob amser! Mae gan Hoci Cymru Gynllun Llysgenhadon Ifanc Hoci rhagorol ac mae pobl ifanc yn gallu helpu yn eu Clwb Hoci ar ôl troi'n 14 oed.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.hockeywales.org.uk/support/young-ambassadors



For more information, visit:

www.hockeywales.org.uk/play/club-life



Prifysgolion ac Addysg Bellach

Yn aml iawn, mae'n rhaid i fyfyrwyr wneud rhywfaint o oriau gwirfoddol fel rhan o'u cyrsiau yn y brifysgol neu'r coleg. Weithiau gall hyn fod hyd at 300 awr (6 awr yr wythnos). Beth am feddwl am brosiect penodol neu raglen waith i fyfyrwr weithio arni? Er enghraifft, gellid gofyn iddo arwain rhaglen Back2Hockey, cynllunio a gweithredu ymgyrch farchnata neu ddim ond helpu mewn sesiynau hyfforddi wythnosol?

Lleoliadau Gwaith

Ydych chi wedi meddwl am siarad â llefydd gwaith a busnesau lleol i weld a oes ganddyn nhw weithwyr sy'n awyddus i wirfoddoli? Efallai y gallech ddod o hyd i rywun a oedd yn arfer chwarae hoci ond sy'n gweithio wrth ddesg. Mae'n werth cysylltu â busnesau lleol, bach a mawr, rhag ofn.

Pobl ddi-waith

Mae'n werth cysylltu â phobl sy'n chwilio am waith yn aml. Mae'r diwydiant chwaraeon yn gallu cynnig cyfleoedd gwyb i roi profiad gwaith i bobl a'u paratoi ar gyfer gwaith. Efallai bod gennych chi bobl yn eich clwb sy'n ddi-waith ar hyn o bryd neu efallai bod asiantaethau lleol a all eich rhoi mewn cysylltiad â chynlluniau a fydd yn gallu cyfeirio eich clwb at bobl addas.

Felly rydw i'n gwybod pwy i'w targedu, ond sut mae dod o hyd iddyn nhw?



For more information, visit:

www.hockeywales.org.uk/play/club-life



Twitter	Ffordd grêt i hysbysebu cyfleoedd gwirfoddoli ar unwaith. Os nad oes gan eich clwb gyfrif Twitter, defnyddiwch adnodd cyfryngau cymdeithasol CLUB LIFE i helpu. Cyrraedd miloedd mewn eiliad!
Papurau Newydd Lleol Am Ddim	Oes gennych chi bapur newydd lleol am ddim? Os felly, er ei fod yn ddull mwy traddodiadol o recriwtio, gall fod yn addas i dargedu rhai cynulleidfaoedd. Gall hon fod yn ffordd i hysbysebu'r clwb hefyd.
Nosweithiau Rhieni	Cysylltu â'r Ysgol Gynradd neu Uwchradd leol i osod stondin ar noson rieni. O wneud hyn yn effeithiol, gallech gael cyswllt â holl rieni'r plant yn yr ysgol.
Ffeiriau Glas Fyfyrrwyr	Gofyn i'ch Prifysgol leol am gael gosod stondin yn Ffair flynyddol y glas fyfyrwyr (tua mis Medi / Hydref fel rheol). Gellid defnyddio eich stondin i hybu sawl peth yn eich clwb – aelodau newydd, gwirfoddolwyr neu ddyfarnwyr er enghraifft.
Arolygon Aelodaeth	Gallai eich clwb arolygu eich aelodau i weld a oes gan unrhyw aelodau sgiliau penodol a'u bod yn awyddus i wirfoddoli? Ar gyfer arolygu, beth am ddefnyddio adnodd ar-lein fel 'Survey Monkey'?
Facebook	Ffordd grêt i hysbysebu cyfleoedd gwirfoddoli ar unwaith. Os nad oes gan eich clwb gyfrif Facebook, defnyddiwch adnodd cyfryngau cymdeithasol CLUB LIFE i helpu. Cyrraedd miloedd mewn eiliad!
Gofyn i Bobl	Pryd oedd y tro diwethaf i chi ofyn i rywun helpu? Os ydych chi'n wirfoddolwr yn darllen hwn, mae'n bur debyg bod rhywun wedi gofyn i chi ryw dro!
Hysbyseb ar y Radio	Er yn ddrud, mae gorsafoedd radio lleol yn cyrraedd miloedd o wrandawyr. Yn hytrach na hysbysebu, efallai y bydd posib i chi gael slot yn siarad am y clwb.
Baneri	Mae baneri'n gymharol rad ac os byddwch yn eu cynllunio'n effeithiol, gallant eich helpu i recriwtio gwirfoddolwyr newydd. Efallai y bydd posib i chi gael cyllid i'w prynu hefyd. Defnyddiwch adnodd Cist Gymunedol CLUB LIFE i'ch helpu.
Taflenni ac ati	Wedi gwneud hyn eisoes? Do efallai, ond gofynnwch i chi eich hun ... pa mor broffesiynol maen nhw'n edrych?



For more information, visit:

www.hockeywales.org.uk/play/club-life



Ymgysylltu â gwirfoddolwyr

Rydw i'n gwybod pwy rydw i eisiau a sut mae eu cael ond nawr rydw i eisiau gwneud yn siŵr eu bod yn cael cefnogaeth effeithiol.

Mae gwneud defnydd effeithiol o'ch gweithlu gwirfoddol yr un mor bwysig â'i recriwtio! Y peth olaf mae eich clwb ei angen yw criw o wirfoddolwyr nad ydych chi'n siŵr sut i'w defnyddio. Mae hyn i gyd yn ymwneud â'r cynllunio a'r recriwtio a dyma gyngor defnyddiol i'ch helpu i ddefnyddio gwirfoddolwyr yn effeithiol.

GWYBOD PA WIRFODDOLWYR RYDYCH CHI EU HEISIAU CYN DECHRAU CEISIO EU RECRIWTIO

↓
GWNEUD YN SIŴR BOD GENNYCH CHI **DDISGRIFIADAU RÔL** AR GYFER POB RÔL

↓
NEILLTUO RHYWUN I GEFNOGI POB GWIRFODDOLWR NEU GRŴP O WIRFODDOLWYR

↓
GWNEUD YN SIŴR BOD GANDDYNT **YR HOLL ADNODDAU** MAENT EU HANGEN I WIRFODDOLI YN Y RÔL YMA

↓
CYTUNO AR AMSERLENNI, ADOLYGU DYDDIADAU A **CHYNLLUNIO OLYNIAETH**

↓
MEDDWL AM SYNIADAU YNGHYLCH SUT I WOBROWYO A CHADW EICH GWIRFODDOLWYR

↓
SIARAD Â'CH GWIRFODDOLWYR A CHYNNAL EU DIDDORDEB



For more information, visit:

www.hockeywales.org.uk/play/club-life



'Disgrifiadau Rôl'

Yn CLUB LIFE mae amrywiaeth o ddisgrifiadau rôl (Cydlynnydd Gwirfoddolwyr, Cadeirydd, Trysorydd, Hyfforddwr Gwirfoddolwyr, Ysgrifennydd, Swyddog Cyfryngau, Swyddog Lles, Swyddog Marchnata, Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol, Gwirfoddolwr)

'Neilltuo Rhywun'

Mae'n bwysig bod gan bob gwirfoddolwr rywun i siarad ag o am ei brofiadau a thrafod problemau posib, yn ogystal â rhannu'r holl bethau da! Gallai hwn fod yn gydlynnydd gwirfoddolwyr neu'n wirfoddolwr arall. Fe allech chi ddefnyddio system cyfeillion hyd yn oed.

'Cael yr adnoddau i gyd'

Gwnewch yn siŵr bod gan yr holl wirfoddolwyr bopeth y mae arnynt ei angen i wirfoddoli. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn cael profiad cadarnhaol. Er enghraifft, os yw gwirfoddolwr yn gwneud te a choffi ar fore'r ymarfer, gwnewch yn siŵr bod ganddo arian mân i brynu'r cynhwysion neu ei fod wedi cael y pethau priodol. Bydd hyn yn gwneud byd o wahaniaeth.

'Cynllunio Olyniaeth'

Meddyliwch am y 'gwirfoddolwr nesaf' bob amser. Dydi pobl ddim yn gwirfoddoli am byth. Cofiwch gynnwys hyfforddiant neu gyfle i gysgodi i'r person sydd wedi'i ddewis i wneud y gwaith nesaf.

'Siarad'

Gwnewch yn siŵr bod eich gwirfoddolwyr yn chwarae rhan lawn a bod llinellau cyfathrebu clir ar gael bob amser. Byddwch yn gyfeillgar!



For more information, visit:

www.hockeywales.org.uk/play/club-life



Datblygu Gwirfoddolwyr

Nawr eich bod wedi recriwtio eich gwirfoddolwyr, sut mae eu datblygu?


Mae datblygu eich gweithlu gwirfoddol yn bwysig iawn, nid yn unig i'r clwb, ond i'r gwirfoddolwyr eu hunain.

5 Rheswm dros ddatblygu eich gwirfoddolwyr:

1. Gwneud yn siŵr eich bod yn cael y gorau ganddynt.
2. Gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn rhan o dîm ehangach.
3. Bydd eu datblygu'n gwella eu casgliad o sgiliau ac yn galluogi iddynt fod yn fwy effeithiol.
4. Gallant drosglwyddo eu sgiliau i wirfoddolwyr eraill.
5. O fuddsoddi yn eich gwirfoddolwyr maen nhw'n llai tebygol o adael y clwb.

Mae'r tabl isod yn cynnig syniadau grêt ar gyfer Cyfleoedd Datblygu Ffurfiol ac Anffurfiol.

Datblygu Gwirfoddolwyr
Cyfarfod Croeso / Cyfarfodydd Rheolaidd
Cyfarfodydd Un i Un
Cefnogaeth rhwng cydweithwyr
Cynlluniau Cyfeillion
Mentora swyddogaethau tebyg mewn clybiau eraill
Hyfforddiant penodol i rôl ar y pwyllgor
Mentora Anffurfiol
Cyrsiau a drefnir gan yr Awdurdod Lleol
Amser i Wrando (Penodol i Hoci) *rhaid gwneud L1 isod yn gyntaf
SCUK Diogelu ac Amddiffyn Plant 1 / 2
Hyfforddiant Cymorth Cyntaf



For more information, visit:

www.hockeywales.org.uk/play/club-life



“Dim ond un peth sy’n waeth na hyfforddi pobl a hwythau’n gadael – sef peidio â’u hyfforddi a hwythau’n aros!”

Dilynwch y dolenni at rai o’r cyrsiau / cyfleoedd datblygu uchod:

Amser i Wrando - <https://thecpsu.org.uk/training-events/specialist-safeguarding-training/>

SCUK Diogelu ac Amddiffyn Plant - <https://www.sportscoachuk.org/site-tools/workshops/about-our-workshops/safeguarding-and-protecting-children>

Hyfforddiant Cymorth Cyntaf - <http://www.stjohnwales.co.uk/> neu cysylltwch â’ch Awdurdod Lleol

Busnes Cymru - <http://business.wales.gov.uk/?site=230>

Gan ddibynnu ar lefel y gefnogaeth a’r arweiniad mae eich gwirfoddolwr eu hangen neu eu heisiau, gallech weithio â nhw i ddatblygu **Cynllun Datblygu Gwirfoddolwyr**.



For more information, visit:

www.hockeywales.org.uk/play/club-life



Cadw Gwirfoddolwyr

Efallai bod recriwtio gwirfoddolwyr newydd yn anodd ond mae eu cadw'n her fawr!

Cadw Gwirfoddolwyr;

Ar ôl i chi ddod o hyd i'ch gwirfoddolwyr newydd, mae'n hanfodol eich bod yn treulio rhywfaint o amser yn ystyried sut i'w cadw. Bydd hyn nid yn unig yn galluogi i chi symud ymlaen i chwilio am wirfoddolwyr eraill i helpu yn y clwb ond hefyd, gobeithio, bydd yn arbed amser i chi rhag gorfod chwilio am rai newydd i gymryd lle'r rhai rydych chi newydd ddod o hyd iddyn nhw!

Cydnabod cyfraniadau eich gwirfoddolwyr:

- ✓ Dweud diolch yn fawr mewn areithiau, cyflwyniadau a chiniawau
- ✓ Cynnal diwrnod cydnabod gwirfoddolwyr
- ✓ Nosweithiau cymdeithasol i wirfoddolwyr
- ✓ Anfon gair o ddiolch ar gyfryngau cymdeithasol, drwy e-bost neu neges destun
- ✓ Cydnabod yn nosweithiau gwobrwyo'r Corff Rheoli Cenedlaethol neu'r Awdurdod Lleol
- ✓ Creu proffil o'ch gwirfoddolwyr yn eich cylchlythyr (ee. Gwirfoddolwr y mis), ar hysbysfyrdau neu ar y wefan
- ✓ Anfon cerdyn pen blwydd a Nadolig at eich gwirfoddolwyr
- ✓ Eu cynnwys yng ngwaith cynllunio'r clwb

Cynnig Cymhelliant

Nid yw pob gwirfoddolwr yn fodlon helpu am ddim ac mae'n bwysig gwobrwyo'r gwirfoddolwyr i gyd drwy gydol eu hoes yn gwirfoddoli! Dyma ffyrdd i chi wobrwyo eich gwirfoddolwyr gyda chymhelliant, heb fynd i ormod o gost:

- ✓ Aelodaeth ratach o'ch clwb
- ✓ Addysg hyfforddwyr am ddim / ratach
- ✓ Cit neu offer hyfforddi
- ✓ Talebau gan noddwyr y clwb (e.e. os yw rhywun yn berchen ar fwyty neu siop chwaraeon)
- ✓ Treuliau
- ✓ Tocynnau i ddigwyddiadau / pencampwriaethau chwaraeon



For more information, visit:

www.hockeywales.org.uk/play/club-life

